Cyngor

Cymdeithas

Botwnnog

RHEOLAU SEFYDLOG

Mabwysiadwyd 13/3/17

Cofnod 99(3)

Ail fabwysiadwyd

9/3/20

Cofnod 94

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

RHEOLAU SEFYDLOG

Gwneir y Rheolau Sefydlog hyn gan Gyngor Cymdeithas Botwnnog (a elwir yma wedi hyn "y Cyngor") ar gyfer rheoli busnes y Cyngor, yn unol â Pharagraff 42 o Atodlen 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ac o ran gwneud contractau, yn unol â thelerau Adran 135 o'r Ddeddf honno. Ni ddylid dehongli eu bod yn dirymu unrhyw ofynion statudol nac effeithiau'r gyfraith achosion berthnasol.

Mae'r Rheolau Sefydlog sydd wedi eu printio mewn teip **du** isod yn ddetholiad o'r llu o ofynion statudol mandadol, a'r gyfraith achosion berthynol, sy'n gymwys i Gynghorau Tref a Chymuned Cymru a chan hynny ni ellir yn gyffredinol eu rhoi heibio trwy benderfyniad. Fodd bynnag, dylid deall nad ydynt yn llwyr ymgorffori'r holl ddarpariaethau statudol sy'n ymwneud â hwy.

CYFARFODYDD Y CYNGOR, Y PWYLLGORAU A'R IS-BWYLLGORAU

1. **Mewn blwyddyn sy'n flwyddyn o etholiadau cyffredin ar gyfer Cynghorwyr Cymuned, cynhelir cyfarfod blynyddol y Cyngor ar y diwrnod, neu 14 diwrnod wedi'r diwrnod y bydd y Cynghorwyr a etholir yn yr etholiad hwnnw'n cymryd eu swyddi (hynny yw, ar y pedwerydd diwrnod wedi hynny). Golyga hyn fod gofyn cynnal y cyfarfod blynyddol cyn pen 4 a 18 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad yr etholiad, neu fel y pennir fel arall drwy gyfraith. Yn ystod unrhyw flwyddyn arall cynhelir y cyfarfod blynyddol ar ba bynnag ddiwrnod ym mis Mai ag y bydd y Cyngor yn ei bennu.** Caiff ei gynnal ar yr ail ddydd Llun ym mis Mai am 7.30 o'r gloch yr hwyr.

2. Bob blwyddyn, yn ogystal â'r cyfarfod blynyddol, bydd y Cyngor yn cynnal un ar ddeg o gyfarfodydd cyffredin eraill ar gyfer trafod ei fusnes, gan gynnal y cyfarfodydd hynny bob mis ar yr ail ddydd Llun am hanner awr wedi saith ac eithro mis Awst pryd na chynhelir cyfarfod.

3. **Caiff y Cadeirydd alw cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar unrhyw adeg, a phe bai'n gwrthod galw cyfarfod o'r fath ar ôl iddo/iddi gael cais i'r perwyl hwnnw, wedi ei arwyddo gan ddau aelod o'r Cyngor, neu pe bai, heb wrthod y cais, yn peidio â galw cyfarfod arbennig cyn pen saith diwrnod ar ôl iddo/iddi gael cais o'r fath, caiff unrhyw ddau aelod o'r Cyngor, ar ôl y gwrthodiad hwnnw neu ar ôl i'r saith niwrnod fynd heibio, fel bo'r achos, alw cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar unwaith.**

4. **Cynhelir cyfarfodydd o'r Cyngor, neu'i Bwyllgorau neu'i Is-Bwyllgorau, ym mha bynnag le, naill ai yn ei ardal neu'r tu allan iddi, ag y bydd y Cyngor, ei Bwyllgorau neu'i Is-Bwyllgorau'n ei bennu, ond ni chynhelir hwy mewn adeiladau sydd wedi eu trwyddedu i werthu diodydd alcoholaidd oni fydd yr un ystafell addas arall ar gael naill ai am ddim neu am gost resymol.** Yn gyffredinol, fodd bynnag, cynhelir cyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau yn Neuadd Goffa Sarn, Y Ganolfan, Bryncroes, Festri Capel Hebron, Llangwnnadl a Festri Capel Rhydbach, Botwnnog, bob yn ail.

5. **O leiaf dri diwrnod clir cyn cyfarfod o'r Cyngor neu Bwyllgor o'r Cyngor -**

(a) dylid rhoi hysbysiad o amser a lleoliad y cyfarfod arfaethedig mewn lle amlwg yn y gymuned (tref)* ac os mai aelodau'r Cyngor sy'n galw'r cyfarfod dylai'r hysbysiad fod wedi ei arwyddo gan yr aelodau hynny a dylai nodi'r busnes yr arfaethir ei drafod yn y cyfarfod; a

(b) dylai galwad i fod yn bresennol yn y cyfarfod, a fydd yn nodi'r busnes yr arfaethir ei drafod yn y cyfarfod ac a fydd wedi ei arwyddo gan Swyddog Priodol y Cyngor, gael ei gadael ym mhreswylfan arferol pob aelod o'r Cyngor neu'i phostio atynt. Yn wahanol i'r hyn a nodir yng ngweddill y Rheolau Sefydlog hyn, ni ddylid penderfynu ynglŷn ag unrhyw fater ac eithrio'r eitemau o fusnes a nodir ar yr agenda.

6. **Caiff cyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau a'i Is-Bwyllgorau eu cynnal a'u rheoli'n ddieithriad yn unol â gofynion y gyfraith** a'r Rheolau Sefydlog hyn. Ni chaniateir ysmygu yn y cyfarfodydd o gwbl.

PENODI'R PWYLLGORAU A'R IS-BWYLLGORAU

7. At y diben o gyflawni ei swyddogaethau neu ar gyfer ei gynghori ynglŷn ag unrhyw fater sy'n ymwneud â hwy, caiff y Cyngor benodi un neu ragor o Bwyllgorau a fydd yn cynnwys aelodau o'r Cyngor ynghyd ag unigolion nad ydynt yn aelodau ohono pe bai'n dymuno hynny, ond ni chaiff yr olaf hawliau pleidleisio arnynt ac ni chânt eu hethol i lywyddu arnynt.

8. Caiff Pwyllgor a benodir yn unol â Rheol Sefydlog 7 uchod at y diben o gyflawni unrhyw swyddogaethau o eiddo'r Cyngor neu'i gynghori ar unrhyw faterion ynglŷn â hwy, oni fydd y Cyngor yn penderfynu fel arall, benodi un neu ragor o Is-Bwyllgorau a fydd yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor ac unigolion nad ydynt yn aelodau ohono, ond ni chaiff yr olaf hawliau pleidleisio arno ac ni chânt eu hethol i lywyddu arno.

9. Oni fydd y Cyngor yn penderfynu fel arall, bydd unrhyw Bwyllgorau a benodir yn unol â Rheol Sefydlog 7 uchod ac unrhyw Is-Bwyllgorau a benodir yn unol â Rheol Sefydlog 8 uchod yn penodi eu Cadeiryddion eu hunain.

10. Bydd y Pwyllgorau a'r Is-Bwyllgorau'n adrodd yn ôl i'r Cyngor neu'r Pwyllgor a'i penododd ynglŷn â'r penderfyniadau a wnaeth yn unol ag unrhyw bwerau swyddogaethol a ddirprwywyd iddynt ac/neu argymhellion/sylwadau ar unrhyw fater sy'n berthnasol i'w amodau gorchwyl.

ETHOL CADEIRYDD A PHENODI IS-GADEIRYDD

11. **Yn ystod cyfarfod blynyddol y Cyngor caiff Cadeirydd ei ethol/ei hethol o blith yr aelodau ac oni fydd yn ymddiswyddo neu'n mynd yn anghymwys bydd yn parhau yn y swydd nes bydd gan ei olynydd/ei holynydd hawl i weithredu yn y swydd (h.y. ar ôl ethol ei olynydd/ei holynydd i'r swydd honno yng nghyfarfod blynyddol nesaf y Cyngor neu o gael ei ethol/ei hethol i lanw swydd wag Cadeirydd os digwydd hynny'n gynharach).**

12 **Bydd y Cadeirydd yn y cyfarfod blynyddol lle caiff ei ethol/ei hethol neu'i ailethol/ei hailethol (neu yn y cyfarfod lle caiff ei ethol/ei hethol, os yw'n llanw swydd wag sydd wedi codi yn y swydd honno), neu os bydd y Cyngor yn caniatáu hynny yn y cyfarfod hwnnw, cyn hynny neu mewn cyfarfod diweddarach a bennwyd gan y Cyngor, yn gwneud yng ngŵydd aelod o'r Cyngor neu'i Swyddog Priodol, a chyflwyno ger bron y Cyngor, ddatganiad o dderbyn y swydd ar ffurf a bennir gan Orchymyn a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac os na fydd yn gwneud hyn, yna fe ddaw ei swydd fel Cadeirydd yn wag. Os bydd yn bresennol yn unrhyw gyfarfod o'r Cyngor, bydd y Cadeirydd yn llywyddu yn y cyfarfod hwnnw.**

13. **Bydd y sawl sy'n llywyddu ar yr adeg yr etholir y Cadeirydd yn anghymwys i fod yn ymgeisydd dros gael ei ailethol/ei hailethol i'r swydd honno os bydd yn dal i lywyddu. Felly, bydd rhywun sy'n llywyddu ac sy'n ymgeisydd am y swydd honno (e.e. Cadeirydd ar ddiwedd eu cyfnod mewn swydd sydd am gael eu hailethol) yn gorfod gadael y gadair a mynd o'r cyfarfod cyn i'w enw/i'w henw gael ei gynnig yn ffurfiol fel ymgeisydd.**

14. **Os bydd nifer y pleidleisiau'n gyfartal yn etholiad y Cadeirydd, bydd y sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod yn rhoi pleidlais fwrw yn ogystal ag unrhyw bleidlais arall sydd ganddo/ganddi.**

15. Caiff Is-Gadeirydd ei benodi/ei phenodi'n flynyddol gan y Cyngor o blith yr aelodau ac, os gwneir penodiad o'r fath, **bydd yn dal y swydd tan yn union ar ôl ethol Cadeirydd yng nghyfarfod blynyddol nesaf y Cyngor, oni fydd yn ymddiswyddo neu'n mynd yn anghymwys cyn hynny. Os bydd y Cadeirydd yn absennol o gyfarfod o'r Cyngor, bydd yr Is-Gadeirydd yn llywyddu ynddo ond os bydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn absennol, yna bydd pa Gynghorydd bynnag ag y bydd yr aelodau o'r Cyngor sy'n bresennol yn ei ddewis yn llywyddu.**

16. Caiff y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd neu'r Cynghorydd sy'n llywyddu mewn cyfarfod o'r Cyngor, neu Bwyllgor neu Is-Bwyllgor iddo, y pŵer i weithredu holl bwerau a dyletswyddau swydd y Cadeirydd o ran cynnal y cyfarfod, **gan gynnwys yr hawl i roi ail bleidlais neu bleidlais fwrw, ond ni fydd yn cymryd arno ymarfer pwerau na chyfrifoldebau gweithredol swyddogaethol y Cyngor nac i wneud hynny ar ei ran.**

DATGANIAD O DDERBYN SWYDD CYNGHORYDD CYMUNED

17. **Bydd rhywun sydd wedi ei ethol/ei hethol i swydd Cynghorydd Cymuned, a hynny cyn y cyfarfod cyntaf o'r Cyngor ar ôl ei ethol/ei hethol neu yn ystod y cyfarfod hwnnw (neu os cyfetholwyd ef/hi, yn y cyfarfod lle cyfetholwyd ef/hi), neu os bydd y Cyngor yn caniatáu hynny yn y cyfarfod hwnnw, cyn hynny neu mewn cyfarfod diweddarach a bennwyd gan y Cyngor, yn gwneud yng ngŵydd aelod o'r Cyngor neu'i Swyddog Priodol, a chyflwyno ger bron y Cyngor, ddatganiad o dderbyn y swydd ar ffurf a bennir gan Orchymyn a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (gan gynnwys ymrwymiad gan y datganwr y bydd, wrth gyflawni ei ddyletswyddau/ei dyletswyddau, yn cadw at y Cod Ymddygiad y mae'r Cyngor wedi ei fabwysiadu), ac os na fydd yn gwneud hyn daw ei swydd fel Cynghorydd Cymuned yn wag ar unwaith.**

AGENDÂU AR GYFER CYFARFODYDD Y CYNGOR A'R PWYLLGORAU A THREFN Y BUSNES

18. Ar wahân i'r hyn a ddarperir trwy'r Rheolau Sefydlog hyn neu drwy statud, ni ddylid cynnwys yr un eitem o fusnes na chynnig ar agenda ar gyfer cyfarfod o'r Cyngor, na'i Bwyllgorau, na'u trafod ynddynt, onid yw wedi ei roi ar yr agenda gan y Clerc, neu gan Aelod o'r Cyngor, yn amodol yn yr achos olaf ar roi rhybudd ysgrifenedig ohonynt i'r Clerc ddim hwyrach na saith diwrnod clir cyn dyddiad y cyfarfod. Bydd y Clerc yn rhoi pob eitem o fusnes neu gynnig lle rhoddwyd rhybudd fel uchod ar agendâu'r cyfarfodydd.

19. Anfonir copi o'r agenda er gwybodaeth at y Cynghorydd Sir sy'n cynrychioli ardal y Cyngor.

20. Yn amodol ar unrhyw ofynion statudol perthnasol, a darpariaethau eraill mewn rhannau eraill o'r Rheolau Sefydlog hyn, gan gynnwys darpariaethau ar gyfer amrywio trefn y busnes, dylid trafod busnes pob cyfarfod o'r Cyngor (ac eithrio ei gyfarfod blynyddol) yn y drefn ganlynol: -

(a) Ethol aelod i lywyddu yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.
(b) Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan unrhyw Gynghorwyr.
(c) Bydd yr Aelod sy'n llywyddu'n arwyddo cofnodion y cyfarfod blaenorol.
(ch) Derbyn datganiadau o fuddiannau personol a'u natur, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad y mae'r Cyngor wedi ei fabwysiadu ar gyfer ei aelodau.
(d) Archwilio a, lle bo hynny'n bosib, penderfynu ynglŷn ag unrhyw gofnodion sy'n weddill.
(dd) Derbyn adroddiadau'r Pwyllgorau a'r Is-Bwyllgorau a benodwyd gan y Cyngor.
(e) Derbyn yr ohebiaeth sydd wedi ei rhestru a, lle bo'n briodol, penderfynu ynglŷn â hi.
(f) Ystyried yr eitemau busnes a roddwyd ar yr agenda gan y Clerc ac (yn amodol ar gael rhybudd digonol yn unol â gofynion Rheol Sefydlog 18 uchod) yr eitemau busnes a roddwyd arni gan aelodau'r Cyngor, yn y drefn y bydd y Clerc yn ei hystyried yn fwyaf priodol.
(ff) Ystyried a chymeradwyo cyfrifon ar gyfer eu talu.
(g) Penderfynu neu gadarnhau dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf o'r Cyngor.

(ng) Ystyried rhoddi grantiau i fudiadau gwirfoddol bob mis Ebrill, Medi ac Ionawr ymhob blwyddyn ariannol.

21. Yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor, yn ogystal, caiff y busnes canlynol ei drafod yn y drefn ganlynol: -

(a) Ethol Cadeirydd.
(b) Penodi Is-Gadeirydd.
(c) Penodi neu ailbenodi unrhyw Bwyllgorau neu Is-Bwyllgorau sefydlog neu Weithgorau.
(ch) Penodi neu ailbenodi Aelodau i wasanaethu ar gyrff allanol.
(d) Dirprwyo neu adnewyddu pwerau swyddogaethol i'r Clerc ac/neu'r Swyddog Cyllidol Atebol i weithredu ar fusnes brys a gyfyd rhwng cyfarfodydd y Cyngor (gan ymgynghori gyda'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.

(dd) Pennu lwfans y Cadeirydd.

(f) (Mewn cyfarfod blynyddol yn union ar ôl etholiad cyffredin), cyfethol aelodau i lanw unrhyw swyddi gweigion sydd heb eu llanw am nad oedd digon o ymgeiswyr.

22. Heb amharu ar y drefn a bennir ar gyfer trafod busnes, fel y nodir yn Rheolau Sefydlog 20 ac 21 uchod, bydd modd rhagflaenu'r busnes sydd i'w drafod yn unrhyw gyfarfod o'r Cyngor gydag eitemau cyffredinol atodol na wneir unrhyw benderfyniad arnynt yn y cyfarfod, ond dan amgylchiadau priodol, bydd modd eu rhoi ar agenda cyfarfod diweddarach o'r Cyngor neu Bwyllgor neu Is-Bwyllgor iddo er mwyn eu hystyried neu'u cyfeirio ar gyfer cyflwyno adroddiad neu adroddiadau, ac fe gyfyngir eitemau o'r fath fel a ganlyn: -

(a) ystyried materion a godwyd yn y cyfarfod neu cyn y cyfarfod gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol (lle mae'n bolisi gan y Cyngor i wahodd y cyhoedd i gyfranogi);

(b) gwneud datganiadau; a

(c) derbyn adroddiadau gan yr aelodau ynglŷn â'u presenoldeb mewn cyfarfodydd o gyrff allanol y penodwyd hwy i wasanaethu arnynt fel cynrychiolwyr y Cyngor.

RHYBUDDION O GYNNIG

23. Ac eithrio'r hyn a ddarperir dan reol Sefydlog 28 isod, dylai pob rhybudd o gynnig fod yn ysgrifenedig, wedi ei arwyddo gan yr aelod neu'r aelodau o'r Cyngor sy'n rhoi'r rhybudd, a dylid eu cyflwyno i'r Clerc yn unol â gofynion Rheol Sefydlog 18 uchod. Yna bydd y Clerc yn eu dyddio a'u rhifo yn y drefn y derbynnir hwy, a'u nodi mewn llyfr, a fydd yn agored i bob aelod o'r Cyngor ei weld.

24. Bydd y Clerc yn cynnwys yn yr alwad (agenda) ar gyfer pob cyfarfod o'r Cyngor bob rhybudd o gynnig a gafwyd yn y drefn y derbyniwyd hwy, onid yw'r aelod sy'n rhoi'r rhybudd wedi nodi'n ysgrifenedig wrth ei roi ei fod/ei bod am ei gynnig mewn cyfarfod diweddarach neu'i fod wedi ei dynnu'n ôl yn ysgrifenedig.

25. Os na chaiff cynnig y mae rhybudd ohono wedi ei nodi yn yr alwad (agenda) ei gynnig, yna fe gaiff ei drin, oni chaiff ei ohirio trwy ganiatâd y Cyngor, fel petai wedi ei adael ac ni chaiff ei gynnig heb rybudd newydd.

26. O gael eu cynnig caiff cynigion y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt, ac y mae eu cynnwys yn ymwneud â dirprwyaethau neu amodau gorchwyl unrhyw Bwyllgor neu Is-Bwyllgor o'r Cyngor, eu cyfeirio heb eu trafod i'r Pwyllgor neu'r Is-Bwyllgor hwnnw neu i ba bynnag Bwyllgor neu Is-Bwyllgor y bydd y Cyngor yn penderfynu, i'w hystyried gan adrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor, er y gall y Cyngor, os cred y byddai'n hwylus ac yn ffafriol o ran cyflawni busnes, ganiatáu delio â'r cynnig yn y cyfarfod lle cynigir ef.

27. Bydd pob rhybudd o gynnig yn berthnasol i ryw fater y mae gan y Cyngor bŵer drosto, neu sy'n effeithio ar y Gymuned.

CYNIGION Y MAE MODD EU CYNNIG HEB RYBUDD

28. Gellir cynnig y cynigion isod heb rybudd: -

(a) Penodi Cadeirydd i lywyddu yn y cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.
(b) Ynglŷn â chywirdeb cofnodion y cyfarfod blaenorol.
(c) Newid trefn y busnes.
(ch) Bwrw ymlaen i'r busnes nesaf.
(d) Cau neu ohirio'r drafodaeth ar unrhyw eitem neilltuol o fusnes.
(dd) Cyfeirio mater i Bwyllgor, Is-Bwyllgor neu Weithgor.
(e) Penodi Pwyllgor neu Weithgor ac/neu Aelodau i wasanaethu arnynt.
(f) Derbyn ac/neu fabwysiadu adroddiad.
(ff) Tynnu cynnig yn ei ôl.
(g) Newid cynnig.
(ng) Cau allan y cyhoedd a'r wasg dan amgylchiadau priodol.
(h) Gohirio'r cyfarfod os bydd ymddygiad afreolus.
(i) Rhoi heibio ofynion unrhyw Reolau Sefydlog, oni fyddai hynny'n golygu na fyddai'r gofynion statudol (y rhai mewn print **du** yn y ddogfen hon) yn gymwys.
(l) Gohirio'r cyfarfod.
(ll) Rhoi'r cynnig gerbron.
(m) O ran unrhyw eitem o fusnes ar agenda'r cyfarfod.

CWESTIYNAU

29. Caiff aelod ofyn unrhyw gwestiwn i'r Cadeirydd neu i'r Clerc ynglŷn â swyddogaethau neu fusnes y Cyngor, ar yr amod y bydd yn rhoi tri diwrnod clir o rybudd o hynny i'r Clerc. Caiff pob cwestiwn o'r fath ei ofyn a'i ateb heb drafodaeth ac ni chaiff y sawl y gofynnir y cwestiwn iddo/iddi wrthod ateb y cwestiwn oni fyddai o fudd cyhoeddus iddo wneud hynny.

RHEOLAU TRAFODAETH

30. Ni thrafodir y cofnodion, ac eithrio eu cywirdeb. Gwneir cywiriadau i'r cofnodion pan gânt eu harwyddo. Felly dylid cyflwyno unrhyw gywiriadau arfaethedig i'r Clerc yn ysgrifenedig cyn y cyfarfod lle bwriedir arwyddo'r cofnodion.

31. Dylai'r aelodau gyfeirio eu hareithiau at y pwnc dan sylw'n unig ac annerch y Cadeirydd.

32. Os bydd dau neu ragor o aelodau am siarad, bydd y Cadeirydd yn penderfynu ym mha drefn y cânt siarad.

33. Ni thrafodir cynnig neu welliant i gynnig, ac eithrio rhai sy'n ymwneud ag eitemau o fusnes ar yr agenda, onid yw wedi cael ei gynnig yn ffurfiol (a'i eilio)* ac yn achos cynnig, oni roddwyd rhybudd digonol ohono yn unol â Rheol Sefydlog 23 uchod neu ei fod fel y nodir yn Rheol Sefydlog 28 uchod.

34. Gwneir gwelliant i gynnig ar gyfer yr isod yn unig: -

(a) gadael geiriau allan;
(b) gadael geiriau allan ac ychwanegu neu fewnosod rhai eraill;
(c) mewnosod neu ychwanegu geiriau,

ond ni fydd hepgor neu fewnosod geiriau yn y fath fodd yn cyflwyno cynnig newydd i mewn i'r cynnig sydd ger bron y Cyngor nac yn negyddu'r cynnig hwnnw.

35. Os gwrthodir gwelliant, bydd modd cynnig gwelliannau eraill ar gyfer y cynnig gwreiddiol. Os caiff gwelliant ei gario, bydd y cynnig fel y'i diwygiwyd yn disodli'r cynnig gwreiddiol a hwnnw wedyn fydd y cynnig gwreiddiol y cynigir gwelliannau pellach ar ei gyfer.

36. Bydd gan y sawl sy'n cynnig penderfyniad yr hawl i ateb ar unwaith cyn rhoi'r cynnig i bleidlais. Os caiff gwelliant ei gynnig bydd gan gynigydd y gwelliant yr hawl i ateb ar unwaith cyn rhoi'r gwelliant i bleidlais. Ni fydd aelod sy'n arfer yr hawl i ateb yn cyflwyno materion newydd. Ar ôl arfer neu wrthod yr hawl i ateb, cymerir pleidlais heb ragor o drafod.

37. Caiff aelod godi mater o drefn neu wneud esboniad personol ond dylid cyfyngu'r esboniad personol i ran berthnasol o araith flaenorol a wnaeth yn y cyfarfod hwnnw a allai fod wedi ei chamddeall a bydd hawl ganddo/ganddi i gael ei glywed/ei chlywed ar unwaith ond ni fydd trafod ar ddyfarniad y Cadeirydd (Maer y Dref)* ynglŷn â mater o drefn neu dderbynioldeb esboniad personol. Pryd bynnag y bydd y Cadeirydd (Maer y Dref)* yn codi ar ei draed yn ystod trafodaeth, dylai holl aelodau eraill y Cyngor fod yn dawel.

38. Gall cynnig neu welliant gael ei dynnu'n ôl gan y cynigydd (gyda chaniatâd yr eilydd)* a chydsyniad y Cyngor, a arwyddir heb drafodaeth, ac ni chaiff unrhyw aelod siarad amdano ar ôl i'r cynigydd ofyn am ei dynnu'n ôl, oni wrthodwyd y caniatâd hwnnw.

39. Pan fo cynnig yn cael ei drafod ni ellir cynnig yr un cynnig arall ac eithrio'r canlynol:-

(a) Newid y cynnig.
(b) Gohirio ystyried y cynnig.
(c) Gohirio'r cyfarfod.
(ch) Gohirio'r drafodaeth.
(d) Bwrw ymlaen i'r busnes nesaf.
(dd) Rhoi'r cynnig gerbron yn awr.
(e) Peidio â chlywed dim mwy gan aelod.
(f) Dylai'r aelod adael y cyfarfod.
(ff) Cyfeirio'r mater dan sylw'n ôl i Bwyllgor neu Is-Bwyllgor.
(g) Cau allan y cyhoedd a'r wasg.

40. Heb amharu ar delerau'r Rheolau Sefydlog hyn, na hawl statudol unrhyw Aelod i ofyn am bleidlais ffurfiol ar unrhyw fater sydd i'w benderfynu gan y Cyngor, bydd modd i benderfyniadau gael eu gwneud gan y Cyngor, neu Bwyllgor neu Is-Bwyllgor iddo, ar sail consensws neu gydsyniad mud.

DIDDYMU PENDERFYNIADAU

41. Ni chaniateir cynigion i ddiddymu unrhyw benderfyniad a basiwyd yn ystod y chwe mis blaenorol, nac unrhyw gynnig na gwelliant i'r un perwyl ag un a negyddwyd yn ystod y chwe mis blaenorol, oni roddwyd rhybudd ohonynt a manylion amdanynt yn yr alwad i'r cyfarfod a bydd y rhybudd yn cynnwys, yn ogystal ag enw'r aelod a gynigiodd y cynnig, enwau tri aelod arall; a phan fydd y Cyngor wedi ymdrin â chynnig o'r fath ni chaiff unrhyw aelod gynnig cynnig tebyg cyn pen cyfnod pellach o chwe mis. Ni fydd y Rheol Sefydlog hon yn gymwys i gynigion a gaiff eu cynnig gan y Cadeirydd neu aelod arall o Bwyllgor neu Is-Bwyllgor o'r Cyngor yn unol ag argymhelliad gan Bwyllgor neu Is-Bwyllgor o'r fath.

CWORWM

42. **Ni ddylid trafod busnes y Cyngor mewn cyfarfod o'r Cyngor oni fydd o leiaf traean o holl aelodau'r Cyngor yn bresennol yn y cyfarfod ond ni fydd y cworwm byth yn llai na thri. Felly o ran cyfarfodydd y Cyngor hwn bydd cworwm yn bedwar o gynghorwyr o leiaf. Fodd bynnag, os daw rhagor na thraean o aelodau'r Cyngor yn anghymwys ar yr un pryd, yna nes bydd nifer yr aelodau sydd mewn swyddi'n cynyddu i ddim llai na dau draean o nifer yr holl aelodau, caiff cworwm y Cyngor ei bennu trwy gyfeirio at y nifer o blith aelodau'r Cyngor sy'n dal yn gymwys yn hytrach na thrwy gyfeirio at holl aelodau'r Cyngor. Cyn belled ag y bo cworwm yn bresennol mewn cyfarfod bydd yn briodol gwneud penderfyniad, dyweder, ar un pleidleisiwr, os na fydd neb yn pleidleisio yn erbyn. Ni fydd y ffaith bod Cynghorwyr eraill sy'n bresennol yn methu â phleidleisio, am fod ganddynt fuddiant personol yn un o'r materion sydd dan ystyriaeth, yn effeithio dim ar y sefyllfa, gan nad yw'r gyfraith yn sôn dim am fesur cworwm yn ôl nifer yr aelodau sydd â'r hawl i bleidleisio yn unig.**

43. Os na fydd cworwm mewn cyfarfod o'r Cyngor neu os bydd nifer yr aelodau sy'n bresennol yn syrthio o dan y cworwm, dylid trafod y busnes na chafodd ei drafod yn y cyfarfod yng nghyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor neu mewn cyfarfod arbennig ohono a gynhelir at y diben o'i ystyried.

44. Bydd cworwm pob Pwyllgor neu Is-Bwyllgor o'r Cyngor yn cynnwys o leiaf pedwar o aelodau.

PLEIDLEISIO

45. **Caiff pob penderfyniad a ddaw neu a gyfyd gerbron y Cyngor a'i Bwyllgorau a'i Is-Bwyllgorau eu penderfynu trwy fwyafrif o'r aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio arnynt mewn cyfarfod o'r Cyngor sydd wedi ei alw'n briodol. Pleidleisir trwy ddangos dwylo (neu, fel arall, trwy bleidlais gudd os bydd y Cyngor, y Pwyllgor neu Is-Bwyllgor yn penderfynu gwneud hynny, fel bo'r achos). Fodd bynnag, ar gais unrhyw aelod o'r Cyngor, caiff y pleidleisiau ar unrhyw gynnig eu cofnodi er mwyn dangos a bleidleisiodd pob aelod a oedd yn bresennol ac a fu'n pleidleisio o blaid neu yn erbyn y cynnig hwnnw.** Bydd hawl gan aelod i gael ei enw/ei henw wedi ei gofnodi yn y cofnodion gan nodi iddo/iddi bleidleisio yn erbyn rhyw fater penodol neu ymatal rhag pleidleisio arno.

46. Os bydd nifer y pleidleisiau'n gyfartal a bod yr aelod sy'n llywyddu mewn cyfarfod o'r Cyngor neu Bwyllgor neu Is-Bwyllgor yn penderfynu peidio â rhoi ail bleidlais neu bleidlais fwrw, bydd y cynnig dan sylw neu'r gwelliant iddo'n cwympo a bydd y Cyngor, y Pwyllgor neu'r Is-Bwyllgor, fel bo'r achos, yn symud ymlaen i'r eitem nesaf; **ac eithrio pan etholir Cadeirydd, lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol fod y sawl sy'n llywyddu'n defnyddio'r bleidlais fwrw.**

47. **Wrth bleidleisio pan fo rhagor na dau o bobl wedi eu henwebu ar gyfer un swydd (e.e. penodiad i lanw swydd aelod achlysurol, penodiad i wasanaethu ar gorff allanol neu benodi staff ac yn y blaen) dylai'r ymgeisydd llwyddiannus dderbyn mwyafrif absoliwt o bleidleisiau'r aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio, gan dorri enw'r sawl sydd â'r lleiaf o bleidleisiau o'r rhestr a chymryd pleidleisiau newydd nes rhoddir mwyafrif y pleidleisiau i un person.**

YMDDYGIAD AFREOLUS

48. Ni ddylai aelodau, mewn cyfarfod o'r Cyngor neu Bwyllgor neu Is-Bwyllgor, anwybyddu dyfarniad y sawl sy'n llywyddu, amharu ar y busnes yn fwriadol, nac ymddwyn yn afreolus, yn dramgwyddus, yn amhriodol nac mewn modd a fyddai'n dwyn anfri ar y Cyngor.

49. Os, ym marn y sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod, yw'r aelod wedi torri gofynion Rheol Sefydlog 48 uchod, caiff unrhyw aelod gynnig na ddylid clywed yr aelod hwnnw mwyach. Yna fe roddir y cynnig gerbron ar unwaith heb drafodaeth.

50. Os caiff cynnig o'r fath ei gario a'r aelod dan sylw'n dal i dorri gofynion Rheol Sefydlog 48, caiff y sawl sy'n llywyddu ohirio'r cyfarfod neu gymryd pa bynnag gamau pellach ag y bernir eu bod yn angenrheidiol neu'n gyfleus o fewn rheswm.

CANFASIO AELODAU AC ARGYMHELLION GANDDYNT

51. Os bydd ymgeisydd yn canfasio aelodau, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar gyfer unrhyw swydd sydd i'w phenodi gan y Cyngor bydd hynny'n anghymwyso'r ymgeisydd ar gyfer y swydd honno a bydd y Clerc yn hysbysu pob ymgeisydd ar gyfer y swydd honno am delerau'r Rheol Sefydlog hon.

52. Ni ddylai aelod geisio unrhyw swydd o eiddo'r Cyngor i neb nac argymell neb ar gyfer swydd o'r fath nac ar gyfer dyrchafiad. Fodd bynnag, ni fydd gofynion y Rheol Sefydlog hon yn rhwystro aelod rhag rhoi geirda ysgrifenedig ynglŷn â gallu, profiad, neu gymeriad yr ymgeisydd ar gyfer ei gyflwyno i'r Cyngor gyda chais am swydd. Hefyd, bydd telerau'r Rheol Sefydlog yn gymwys i dendrau a phrisiau megis petai'r rhai sy'n cyflwyno tendrau neu brisiau'n ymgeisio am swydd.

HAWL Y CYHOEDD O RAN MYNEDIAD I GYFARFODYDD, GWYBODAETH, BUSNES CYFRINACHOL AC ARCHWILIO DOGFENNAU

53. **Bydd pob cyfarfod o'r Cyngor a'i Bwyllgor(au) yn agored i'r cyhoedd. Fodd bynnag, fe all y Cyngor neu'r Pwyllgor, fel bo'r achos, benderfynu cau allan y cyhoedd a'r wasg (naill ai am ran neu'r cyfan o'r trafodion) pryd bynnag y byddai cyhoeddusrwydd yn andwyol i les y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes sydd i'w drafod neu am reswm arbennig arall a nodir**

yn y penderfyniad hwnnw ac a gyfyd oherwydd natur y busnes hwnnw neu o'r trafodion, ac os penderfynir gwneud hynny, ni fydd yn ofynnol i'r cyfarfod fod yn agored i'r cyhoedd yn ystod y trafodion y mae'r penderfyniad yn berthnasol iddynt. Caiff y Cyngor neu Bwyllgor ymdrin â'r angen i gael neu i ystyried argymhellion neu gyngor gan ffynonellau ac eithrio'r aelodau, ei Bwyllgorau neu'i Is-Bwyllgorau, fel bo'r achos, fel rheswm arbennig pam y byddai cyhoeddusrwydd yn andwyol i les y cyhoedd, heb roi cyfrif am destun na phwrpas yr argymhellion neu gyngor.

Tra bydd cyfarfod o'r fath yn agored i'r cyhoedd ni fydd gan y Cyngor neu Bwyllgor, fel bo'r achos, y pŵer i gau allan aelodau o'r cyhoedd a dylid darparu cyfleusterau rhesymol, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, i gynrychiolwyr swyddogol priodol y papurau newydd sydd yno at y diben o roi hanes y cyfarfod a'r trafodion i'r papurau newydd hynny, gymryd nodiadau ac, oni chynhelir y cyfarfod mewn adeilad nad yw'n eiddo i'r Cyngor neu sydd heb ffôn, i ffonio eu hadroddiad drwodd ar eu cost eu hunain. Nid yw darpariaethau'r Rheol Sefydlog hon yn amharu ar unrhyw bŵer i gau rhywun allan er mwyn atal neu warchod rhag ymddygiad afreolus neu gamymddygiad arall mewn cyfarfod.

54. Hefyd bydd y Cyngor hwn yn cadw at yr egwyddor o fod yn agored o ran rhoi mynediad i'r cyhoedd i'w gyfarfodydd a'i ddogfennau, fel y nodir yn Adran 100A hyd K ac yn y blaen o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (ac fel yr ychwanegwyd ati gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Hawl i Wybodaeth) 1985), megis petai'n brif gyngor (h.y. yn Gyngor Sir neu'n Gyngor Bwrdeistref Sirol Cymreig), i'r graddau y mae hynny'n bosib o ran swyddogaethau'r Cyngor, yn enwedig o ran rhoi mynediad i'r cyhoedd i gyfarfodydd yr Is-Bwyllgorau a'u hawl i weld agendâu, adroddiadau, cofnodion a phapurau cefndir. **Hefyd bydd y Cyngor yn cydymffurfio'n llwyr ag unrhyw ofynion cyfredol a gofynion y dyfodol a fydd yn effeithio arno sydd yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Offerynnau Statudol a wneir oddi tani.**

55. Er gwaethaf yr egwyddor o fod yn agored yn nhrafodion y Cyngor, fel y nodir yn Rheol Sefydlog 54 uchod, ni ddylai'r un aelod ddatgelu i neb nad yw'n aelod o'r Cyngor unrhyw fusnes y mae'r Cyngor yn pennu ei fod yn gyfrinachol.

56. Bydd gan aelod yr hawl, ond at y diben o ymgymryd â'i swyddogaethau, ei ddyletswyddau/ei dyletswyddau a'i gyfrifoldebau/ei chyfrifoldebau fel Cynghorydd yn unig, i archwilio unrhyw ddogfen sydd ym meddiant y Cyngor, a lle bo hynny'n ymarferol, caiff gopi ohoni ar gais i'r perwyl hwnnw.

PENODI STAFF

57. Bydd y Cyngor yn penodi pa bynnag swyddogion a gweithwyr eraill ag y bydd yn barnu eu bod yn angenrheidiol, gan gynnwys Clerc, ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau'n briodol. **Bernir bod telerau penodi neu amodau cyflogaeth pob swyddog neu weithwyr eraill yn cynnwys y Cod Ymddygiad a nodir yn yr Atodlen i Orchymyn Cod Ymddygiad (Gweithwyr Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001.**

58. **Bydd y Cyngor yn penodi Swyddog Cyllidol Atebol** (a all hefyd fod yn Glerc iddo), **gyda dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol, i ymgymryd â'i**

swyddogaethau dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Rheoliad 4 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau 1996.

59. **Bydd y Cyngor yn penodi archwilydd mewnol hollol annibynnol i ymgymryd â'r swyddogaethau a bennir dan Reoliad 5 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau 1996 a'r Codau Arferion Archwilio a luniwyd arnynt gan y Comisiwn Archwilio** a bydd yn ystyried unrhyw argymhellion neu sylwadau a wneir ganddo/ganddi o dro i dro.

60. **Dylai penodiadau i swyddi neu waith cyflogedig yn y Cyngor fod yn seiliedig bob amser ar deilyngdod, yn amodol ar unrhyw eithriadau statudol perthnasol i'r rheidrwydd hwnnw ac, er mwyn gwarchod rhag unrhyw honiadau o ffafriaeth, ni fydd gweithwyr y Cyngor yn cymryd rhan mewn unrhyw benodiadau, na phenderfyniadau eraill sy'n ymwneud â disgyblaeth, dyrchafiadau na phae ac amodau ar gyfer unrhyw weithiwr/wraig arall neu ddarpar weithiwr/wraig, y maent yn perthyn iddynt, neu y mae ganddynt berthynas bersonol agos gyda hwy y tu allan i'r gwaith.**

CONTRACTAU

61. **Os bwriedir gwneud contract sy'n fwy na £500 ond sydd heb fod yn fwy na** £5,000 **o ran ei werth neu'i swm ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu am wneud gwaith, bydd Swyddog Cyllidol Atebol y Cyngor yn rhoi o leiaf** tair **wythnos o rybudd cyhoeddus o'r bwriad hwnnw yn yr un modd â hysbysiadau cyhoeddus o gyfarfodydd y Cyngor.**

62. **Yn amodol ar ofynion Rheol Sefydlog 63 isod, lle bo gwerth y contract arfaethedig yn fwy na** £10,000 **o ran ei werth neu'i swm, dylid rhoi rhybudd tebyg yn ogystal ym mha bynnag bapurau newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal ag y bydd y Cyngor yn ei orchymyn.**

63. **Os bydd y Cyngor o'r farn bod y nwyddau, y deunyddiau neu'r gwaith yn arbenigol eu natur, yn wahanol i ofynion Rheol Sefydlog 62 uchod, bydd modd gwahodd tendrau gan o leiaf dri o gontractwyr, a gaiff eu dethol gan y Cyngor, sy'n arbenigo yn y math hwnnw o waith ac yn y blaen sy'n ffurfio'r contract dan sylw.**

64. **Bydd yr hysbysiad, neu'r gwahoddiad i gyflwyno tendr, am gontract sy'n fwy na** £10,000 **o ran ei werth neu'i swm yn nodi natur gyffredinol y contract arfaethedig ac enw a chyfeiriad y sawl y dylid cyfeirio'r tendrau ato/ati a'r dyddiad olaf y dylai'r tendrau hynny gyrraedd y person hwnnw yng nghwrs arferol y post.**

65. **Dylai'r tendrau/dyfynbrisiau a dderbynnir gael eu hagor gan y Swyddog Cyllidol Atebol, neu rywun arall y mae'n ofynnol cyfeirio tendrau ato/ati, yng ngŵydd y Cyngor neu'r Pwyllgor/Is-Bwyllgor/Swyddog y mae'r pŵer i roddi'r contract wedi ei ddirprwyo iddo/iddi.**

66. **Ni fydd rheidrwydd ar y Cyngor i dderbyn y tendr isaf.**

67. **Os na dderbynnir tendrau neu os bydd y tendrau i gyd yr un fath, dylai'r Cyngor ac yn y blaen wneud trefniadau ar gyfer pwrcasu'r nwyddau neu'r deunyddiau neu ar gyfer gwneud y gwaith fel y gwêl yn dda.**

68. **Bydd hysbysiadau/gwahoddiadau i dendro a gyflwynir yn unol â gofynion Rheolau Sefydlog 61, 62, 63 a 64 yn cynnwys datganiad i'r un perwyl â Rheol Sefydlog 52 o ran tendrau a dyfynbrisiau.**

62. **Ni ddylai'r un aelod o'r Cyngor roi gorchmynion, na throsglwyddo cyfarwyddiadau na chyfarwyddyd yn enw'r Cyngor onid yw'r gorchmynion hynny ac yn y blaen wedi eu hawdurdodi'n benodol gan y Cyngor neu'n unol â phwerau a ddirprwywyd yn briodol i Bwyllgor, Is-Bwyllgor neu Swyddog a dylid cadw at ofynion y Rheolau Sefydlog hyn a Rheolau Cyllidol y Cyngor yn ddieithriad yn y cyswllt hwnnw.**

CYFLAWNI DOGFENNAU

70. **Dylid cyflawni pob dogfen berthnasol (e.e. rhai sy'n ymwneud â thrafodion tir ac yn y blaen) dan sêl gyffredin y Cyngor (neu, os nad oes gan y Cyngor sêl, dylid eu nodi gydag offeryn wedi ei arwyddo a'i selio gan ddau aelod o'r Cyngor,** a gaiff eu penodi trwy hynny i'r perwyl hwnnw, o gael awdurdod ffurfiol i wneud hynny trwy benderfyniad y Cyngor.

SWYDDOG PRIODOL

71. Lle bo statud, rheoliad neu orchymyn yn rhoddi swyddogaethau neu ddyletswyddau i Swyddog Priodol y Cyngor, yn yr achosion canlynol y Clerc fydd y swyddog hwnnw: -

(a) Derbyn datganiadau o dderbyn swyddi a thystio iddynt.
(b) Derbyn a chadw cynlluniau a dogfennau.
(c) Arwyddo hysbysiadau a dogfennau eraill ar ran y Cyngor.
(ch) Derbyn copïau o is-ddeddfau a wneir gan y Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol perthnasol.
(d) Ardystio copïau o is-ddeddfau a wneir gan y Cyngor Cymuned.
(dd) Arwyddo galwadau i fynychu cyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau/Is-Bwyllgorau.

Ym mhob achos arall y Swyddog Priodol fydd y sawl a enwebir gan y Cyngor ac os na enwebwyd neb, y Clerc fydd y Swyddog Priodol.

RHEOLI GWARIANT A CHYLLID

72. **Dylid cadw at delerau a gofynion Rheoliadau Cyllidol cymeradwy'r Cyngor mewn perthynas ag unrhyw benderfyniadau a wneir ynglŷn â gwariant** a bydd y Cyngor yn derbyn ac yn rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw argymhellion neu sylwadau a wneir gan ei Archwilydd Mewnol o ran rheolaeth gyllidol dros ei drafodion.

COD YMDDYGIAD YR AELODAU A'R SWYDDOGION

73. **Dylai'r cynghorwyr ymddwyn yn unol â'r egwyddorion a bennwyd i reoli eu hymddygiad, fel y nodir yn Adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a**

Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001, sef, anhunanoldeb, gonestrwydd, didwylledd a phriodoldeb, dyletswydd i gynnal y gyfraith, stiwardiaeth, gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau, cydraddoldeb a pharch, bod yn agored, atebolrwydd ac arweinyddiaeth.

74. Wrth ymgymryd â gwaith y Cyngor, gan ymgymryd â rôl aelod ohono ac yr etholwyd ac y penodwyd hwy iddo, ac wrth weithredu fel cynrychiolwyr i'r Cyngor, dylai'r Cynghorwyr ddilyn a chadw at y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd ganddo yn unol â gofynion Adran 51 o Ddeddf 2000, gan gynnwys unrhyw God enghreifftiol a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan Adran 50(2) o'r Ddeddf honno.

75. Os bydd Cynghorydd yn gweithredu fel cynrychiolydd i'r Cyngor ar gorff arall, bydd yr aelod hwnnw, wrth weithredu yn rhinwedd hynny, yn cadw at y Cod oni fydd yn groes i unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol a gyfyd o ganlyniad i'w wasanaeth/i'w gwasanaeth ar y corff hwnnw.

76. Bydd y Cynghorwyr yn cyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan roi sylw priodol i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, beth bynnag y bo eu rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu tueddiadau rhywiol, eu hoed na'u crefydd, a byddant yn dangos parch ac ystyriaeth i eraill. Ni ddylent wneud dim a fyddai'n amharu, neu a fyddai'n debygol o amharu, ar ddidueddrwydd gweithwyr yr awdurdod.

77. Ni ddylai Cynghorwyr ddatgelu unrhyw wybodaeth a roddwyd iddynt yn gyfrinachol, heb ganiatâd penodol gan rywun sydd wedi ei awdurdodi/ei hawdurdodi i roddi caniatâd o'r fath, oni fydd yn ofynnol dan y gyfraith i wneud hynny, ac ni ddylent rwystro neb rhag cael mynediad i wybodaeth y mae ganddo/ganddi'r hawl iddi dan y gyfraith.

78. Ni ddylai Cynghorwyr, nac yn rhinwedd eu swyddi nac fel arall, gyflawni troseddau na pheri i droseddau gael eu cyflawni nac ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ei ystyried yn ymddygiad a fyddai'n dwyn anfri ar swydd Cynghorydd neu'r Cyngor a byddant yn hysbysu'r Comisiynydd Lleol dros Weinyddiaeth Leol yng Nghymru a'r Swyddog Monitro priodol (sef y swyddog a benodwyd felly gan y Cyngor Sir neu'r Cyngor Bwrdeistref Sirol dros ardal y Cyngor) am unrhyw ymddygiad gan aelod arall o'r Cyngor y maent hwy'n credu ei fod yn cynnwys, neu'n debygol o gynnwys, methiant i gadw at y Cod ond, o ran y rheidrwydd hwn, ni ddylent wneud cwynion blinderus a maleisus yn erbyn pobl eraill. Hefyd byddant yn rhoi gwybod am unrhyw ymddygiad gan rywun arall y credant hwy ei fod yn cynnwys, neu'n debygol o gynnwys ymddygiad troseddol.

79. Bydd y Cynghorwyr (ac eithrio aelodau sy'n destun archwiliad gan y Swyddog Monitro) yn cydymffurfio ag unrhyw beth y bydd y Swyddog Monitro'n gofyn amdano mewn perthynas ag archwiliad.

80. Ni ddylai Cynghorwyr, yn rhinwedd eu swyddi, na fel arall, ddefnyddio eu safle mewn modd amhriodol er mwyn rhoddi neu sicrhau ar gyfer unrhyw un, ac yn enwedig eu teuluoedd, eu ffrindiau neu rai y mae ganddynt gysylltiad agos â hwy, fantais neu anfantais neu i sicrhau mantais iddynt

hwy eu hunain. Pan fyddant (yn gorfforaethol) yn defnyddio neu'n awdurdodi defnydd ar adnoddau'r Cyngor gan Gynghorydd arall, byddant yn gwneud hynny'n ochelgar ac yn unol â'r gyfraith a gofynion y Cyngor a byddant yn sicrhau na chaiff adnoddau'r Cyngor eu defnyddio'n amhriodol at eu dibenion preifat eu hunain, nac eiddo eu teuluoedd, na'u ffrindiau na neb y mae ganddynt gysylltiad agos personol â hwy.

81. Pan fydd Cynghorwyr yn gwneud penderfyniadau byddant yn gwneud hynny yn ôl teilyngdod dan yr amgylchiadau sydd ohoni ac er lles y cyhoedd, gan roi cyfrif am unrhyw gyngor perthnasol a geir gan swyddogion y Cyngor, yn enwedig ei Swyddog Cyllidol Atebol, y Swyddog Monitro a'i swyddog cyfreithiol, yr hwn y dylid ymgynghori ag ef/â hi os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â phŵer y Cyngor i weithredu, neu a yw'r hyn y cynigir ei wneud yn unol â'r fframwaith polisi a gytunwyd gan y Cyngor lle gallai'r canlyniadau cyfreithiol a ddeuai pe bai'r Cyngor yn gweithredu neu beidio esgor ar ôl-effeithiau pwysig; a byddant yn rhoi rhesymau dros benderfyniadau yn unol â gofynion y Cyngor.

82. Bydd y Cynghorwyr yn cadw at y gyfraith a rheolau'r Cyngor ynglŷn â hawlio treuliau a lwfansau ar gyfer eu swyddi fel Cynghorwyr ac ni fyddant yn derbyn gan neb unrhyw roddion, lletygarwch (ac eithrio lletygarwch swyddogol, megis derbyniad sifil neu ginio gwaith sydd wedi eu hawdurdodi'n briodol gan y Cyngor), budd materol neu wasanaethau iddynt hwy eu hunain na neb y mae'r Cynghorydd yn byw gyda hwy a fyddai, neu a fyddai'n rhesymol i'w weld, yn ei roi/ei rhoi dan rwymedigaeth amhriodol.

83. Ar bob adeg bydd Cynghorwyr yn ystyried a oes ganddynt fuddiant personol, ac a yw'r Cod yn ei gwneud hi'n ofynnol iddynt ddatgelu'r buddiant hwnnw ai peidio.

84. Bydd gan Gynghorydd fuddiant personol mewn mater os bydd yn rhagweld y gellid yn rhesymol farnu y byddai penderfynu yn ei gylch yn debygol o fod o fantais neu anfantais i: -

(a) y Cynghorydd, rhywun o blith ei deulu/ei theulu neu ffrind, neu rywun y mae ganddo/ganddi gysylltiad personol agos ag ef/â hi, neu
(b) corff sy'n cyflogi'r rhai hynny, neu y mae gan y rhai hynny ryw fath ar berchnogaeth neu reolaeth arno i raddau mwy na thalwyr treth y cyngor, trethdalwyr neu breswylwyr ardal y Cyngor.

85. Bydd Cynghorwyr yn ystyried bod ganddynt fuddiant personol mewn mater i'r graddau ei fod yn ymwneud ag: -

(a) awdurdod perthnasol arall y maent yn aelod ohono;
(b) corff y mae ganddynt swydd reoli gyffredinol ynddo; neu
(c) corff y penodwyd neu yr enwebwyd hwy iddo gan y Cyngor fel cynrychiolydd.

86. Bydd Cynghorwyr hefyd yn ystyried bod ganddynt fuddiant personol mewn mater i'r graddau ei fod yn ymwneud ag: -

(a) unrhyw waith amser llawn, rhan amser neu ysbeidiol, swydd, masnach neu broffesiwn y maent yn ei arfer er mwyn elw neu fantais:

(b) unrhyw un sydd wedi eu cyflogi neu'u penodi, unrhyw gwmni y maent yn bartner ynddo, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr taledig iddo;

(c) unrhyw un, ac eithrio awdurdod perthnasol (h.y. Cyngor Sir, Cyngor Bwrdeistref Sirol, Awdurdod Tân neu Awdurdod Parc Cenedlaethol), sydd wedi gwneud taliad iddynt o ran eu hethol neu o ran unrhyw dreuliau a achoswyd wrth gyflawni eu dyletswyddau;

(ch) unrhyw gorff corfforaethol sydd â man busnes neu dir yn ardal y Cyngor, lle mae gan y Cynghorydd fuddiant manteisiol mewn dosbarth o warantau o eiddo'r corff hwnnw sy'n werth mwy na £25,000 (ar sail y gost wreiddiol) neu ganfed rhan o gyfanswm y cyfalaf cyfrannau a gyhoeddwyd gan y corff hwnnw (pa un bynnag sydd isaf);

(d) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhwng y Cyngor a'r Cynghorydd, cwmni y mae'r Cynghorydd yn bartner ynddo, cwmni y mae'r Cynghorydd yn gyfarwyddwr arno, neu gorff fel y rhai a nodir yn (ch) uchod;

(dd) unrhyw dir y mae gan y Cynghorydd neu aelod o deulu'r Cynghorydd fuddiant manteisiol ynddo ac sydd yn ardal y Cyngor;

(e) unrhyw dir y mae'r Cyngor yn landlord arno a'r tenant yn gwmni y mae'r Cynghorydd yn bartner ynddo, yn gwmni y mae'r Cynghorydd yn gyfarwyddwr arno, neu'n gorff fel y rhai a nodir yn (ch) uchod;

(f) unrhyw dir yn ardal y Cyngor y mae gan y Cynghorydd drwydded (yn unigol neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am fis neu fwy; a

(ff) unrhyw daith y tu allan i'r Deyrnas Unedig y talodd y Cyngor amdani neu y bydd yn talu amdani.

87. Bydd Cynghorwyr hefyd yn ystyried bod ganddynt fuddiant personol mewn mater i'r graddau y mae'n ymwneud ag unrhyw aelodaeth, neu swydd reoli gyffredinol sydd ganddynt mewn unrhyw gorff. Ymhlith y cyrff hynny mae'r isod: -

(a) clwb preifat neu gymdeithas, megis y Seiri Rhyddion, clwb hamdden, clwb gweithwyr, neu glwb buddsoddi preifat;

(b) corff y mae ei brif bwrpas yn cynnwys dylanwadu ar y farn gyhoeddus neu ar bolisi megis grŵp lobïo;

(c) undeb(au) llafur neu gymdeithas broffesiynol;

(ch) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a chyfeillgar neu gorff arall sydd â nodau elusennol.

Fodd bynnag, caiff Cynghorwyr ystyried nad oes ganddynt fuddiant personol mewn mater i'r graddau y mae'n ymwneud â swyddogaethau'r Cyngor o ran lwfans neu daliad a wneir dan Adrannau 173 hyd 176 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Presenoldeb, colled ariannol, lwfansau teithio a bwyd a lwfansau ar gyfer mynychu cynadleddau a chyfarfodydd).

88. Bydd Cynghorydd sydd â buddiant personol mewn mater a nodir yn Rheol Sefydlog 85 uchod ac sy'n bresennol mewn cyfarfod o'r Cyngor, neu Bwyllgor neu Is-Bwyllgor iddo, lle trafodir y mater, yn datgelu bodolaeth a

natur y buddiant ar ddechrau'r drafodaeth honno neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg. Mewn achos o'r fath caiff y Cynghorydd siarad ond ni chaiff bleidleisio ar unrhyw fater oni chaiff ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau priodol (o'r Cyngor Sir neu'r Cyngor Bwrdeistref Sirol y mae'r Cyngor Cymuned wedi ei leoli yn ei ardal).

89. Bydd Cynghorydd sydd â buddiant personol mewn mater a nodir yn Rheolau Sefydlog 86 ac 87 uchod ac sy'n bresennol mewn cyfarfod o'r Cyngor, neu Bwyllgor neu Is-Bwyllgor iddo, lle trafodir y mater, yn datgelu bodolaeth a natur y buddiant ar ddechrau'r drafodaeth honno neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg. Mewn achos o'r fath, ni fydd y Cynghorydd yn trafod y mater oni chaiff ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau perthnasol (o'r Cyngor Sir neu'r Cyngor Bwrdeistref Sirol y mae'r Cyngor Cymuned (Tref)* wedi ei leoli yn ei ardal) ac ni fydd hwnnw'n ystyried rhoddi gollyngiad oni fydd y Cynghorydd wedi hysbysu'r Swyddog Monitro ymlaen llaw o'r buddiant hwnnw, yn unol â thelerau Rheol Sefydlog 91 isod, ynghyd â'r manylion perthnasol.

90. Bydd Cynghorydd sydd â buddiant personol mewn mater nad yw wedi ei nodi yn Rheolau Sefydlog 85, 86 ac 87 uchod (ond gan gynnwys y rhai sydd yn Rheol Sefydlog 84 uchod), ac sy'n bresennol mewn cyfarfod o'r Cyngor, neu Bwyllgor neu Is-Bwyllgor iddo, lle trafodir y mater, yn datgelu bodolaeth a natur y buddiant ar ddechrau'r drafodaeth honno neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg. Pe bai'r buddiant personol hwnnw'n un a allai beri i aelod o'r cyhoedd feddwl yn rhesymol y byddai'n effeithio'n sylweddol ar allu'r Cynghorydd i weithredu'n gyfan gwbl yn ôl teilyngdod yr achos a lles y cyhoedd pe bai'r Cynghorydd hwnnw'n cymryd rhan yn y drafodaeth ar y mater hwnnw, ni fydd y Cynghorydd yn ystyried y mater yn y cyfarfod hwnnw oni chaiff ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau priodol (o'r Cyngor Sir neu'r Cyngor Bwrdeistref Sirol y mae'r Cyngor Cymuned (Tref)* wedi ei leoli yn ei ardal) ac ni fydd hwnnw'n ystyried rhoddi gollyngiad oni fydd y Cynghorydd wedi hysbysu'r Swyddog Monitro ymlaen llaw o'r buddiant hwnnw, yn unol â thelerau Rheol Sefydlog 91 isod, ynghyd â'r manylion perthnasol.

91. Bydd Cynghorwyr yn cofrestru unrhyw fuddiannau a ddatgelwyd yn y Gofrestr Buddiannau a sefydlir ac a gedwir gan y Swyddog Monitro priodol. Byddant yn arfer cyfrifoldeb personol wrth benderfynu a oes ganddynt fuddiant personol y dylent ei ddatgelu, gan ofyn cyngor am hynny gan y Swyddog Monitro a chan roi sylw priodol i unrhyw gyngor a geir gan y Pwyllgor Safonau. Bydd y Cynghorwyr yn hysbysu'r Swyddog Monitro am unrhyw newidiadau yn y buddiannau a gofrestrwyd cyn pen mis ar ôl i'r newid ddigwydd.

92. Ac eithrio'r rhoddion y bydd Cynghorydd yn eu derbyn ar ran y Cyngor, bydd Cynghorydd yn hysbysu'r Swyddog Monitro am fodolaeth a natur unrhyw roddion, lletygarwch, budd ymarferol neu fantais y mae'r Cynghorydd wedi eu derbyn, neu unrhyw un sy'n byw gyda'r Cynghorydd hyd y gŵyr y Cynghorydd, gan unrhyw gwmni, unrhyw gorff neu berson ac sy'n ymwneud â'u swydd fel Cynghorydd neu'n codi o'r swydd honno, lle bo gwerth yr eitem neu fudd yn fwy na DIM.

93. **Disgwylir i weithwyr y Cyngor gadw at delerau'r Cod Ymddygiad perthnasol a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan Adran 82(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a Gorchymyn Cod Ymddygiad (Gweithwyr Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001. Mae hyn yn cynnwys hawl y cyhoedd i ddisgwyl y safonau ymddygiad gorau gan weithwyr y Cyngor, gan mai eu rôl yw gwasanaethu'r Cyngor o ran rhoi cyngor, gweithredu ei bolisïau, a darparu gwasanaethau i'r gymuned leol. Wrth gyflawni eu dyletswyddau byddant yn gweithredu'n ddidwyll, yn onest, yn ddiduedd ac yn wrthrychol.**

94. **Mae'r gweithwyr hynny'n gwasanaethu'r Cyngor i gyd ac maent yn atebol i'r Cyngor ac mae arnynt ddyletswydd iddo. Byddant yn gweithredu'n unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod, gan gydnabod dyletswydd gweithwyr y sector cyhoeddus i gyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus yn rhesymol ac yn unol â'r gyfraith.**

95. **Bydd gweithwyr y Cyngor yn dilyn pob polisi o eiddo'r Cyngor sydd wedi ei fynegi'n gyfreithlon ac ni fyddant yn caniatáu i'w safbwyntiau personol neu wleidyddol eu hunain amharu ar eu gwaith.**

96. **Mae cyd-barch rhwng y gweithwyr a'r Cynghorwyr yn hanfodol i lywodraeth leol dda, a dylai'r gydberthynas waith fod ar sail broffesiynol. Dylai gweithwyr ddelio â'r cyhoedd, y Cynghorwyr ac unrhyw weithwyr eraill mewn modd effeithlon a diduedd a llawn cydymdeimlad.**

97. **Bydd y gweithwyr yn cydymffurfio â'r polisïau sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb, fel y cytunwyd gan y Cyngor, yn ogystal â gofynion y gyfraith.**

98. **Bydd y gweithwyr yn sicrhau eu bod yn defnyddio'r arian cyhoeddus a ymddiriedir iddynt mewn modd cyfrifol a chyfreithlon, ac ni ddylent ddefnyddio eiddo, cerbydau na chyfleusterau eraill y Cyngor at eu dibenion personol eu hunain oni chânt awdurdod i wneud hynny.**

99. **Er mai mater i'r gweithwyr eu hunain yw eu bywydau personol, ni ddylent adael i'w buddiannau preifat wrthdaro gyda'u dyletswyddau cyhoeddus. Ni ddylent gamddefnyddio eu sefyllfa swyddogol na'r wybodaeth a gânt yn nhreigl eu gwaith i hyrwyddo eu buddiannau preifat eu hunain, na buddiannau eraill. Yn arbennig felly dylent gydymffurfio â'r isod: -**

    (a) **unrhyw reolau sydd gan y Cyngor ynglŷn â chofrestru a datgelu buddiannau ariannol neu anariannol gan y gweithwyr,**

    (b) **unrhyw reolau sydd gan y Cyngor ynglŷn â gweithwyr yn datgelu lletygarwch neu roddion a gynigir iddynt neu a dderbynnir ganddynt, gan unrhyw unigolion neu gyrff sy'n cynnal busnes neu sydd am gynnal busnes gyda'r Cyngor, neu sy'n ymelwa neu'n ceisio ymelwa fel arall o gydberthynas gyda'r Cyngor. Ni ddylai'r gweithwyr dderbyn rhoddion gan drydydd parti oni chawsant awdurdod i wneud hynny gan y Cyngor.**

100. **Os daw gweithiwr/wraig i wybod am weithgareddau y mae'r gweithiwr/wraig hwnnw/honno'n credu eu bod yn anghyfreithlon, yn**

amhriodol, yn anfoesol neu'n anghyson mewn modd arall â Chod y gweithwyr, dylai'r gweithiwr/wraig roi gwybod am y mater ar unwaith, gan weithredu'n unol â hawliau'r gweithwyr dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, ac unrhyw drefn hysbysu gyfrinachol o eiddo'r Cyngor, neu unrhyw drefn arall a luniwyd at y diben hwnnw.

101. Mae'n bwysig bod yn agored wrth rannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau ar bob adeg mewn awdurdod perthnasol. Fodd bynnag, gall peth gwybodaeth fod yn gyfrinachol neu'n sensitif ac efallai na fyddai'n briodol ei rhannu gyda chynulleidfa eang. Lle bo angen cyfrinachedd i warchod preifatrwydd neu hawliau eraill unigolion a chyrff, ni ddylid rhyddhau gwybodaeth i neb ond Cynghorydd Cymuned, gweithiwr/wraig neu'r sawl sydd â'r hawl i'w derbyn, neu y mae arno/arni ei hangen er mwyn cyflawni ei swyddogaethau'n briodol. Ni ddylid tybio bod dim yn y Cod hwn yn drech na'r gofynion statudol neu gyfreithiol i gadw gwybodaeth benodol yn gyfrinachol, nac i beidio â datgelu peth gwybodaeth benodol.

102. Bydd gweithwyr sy'n ymwneud â recriwtio a phenodi staff yn sicrhau y caiff penodiadau eu gwneud ar sail teilyngdod. Er mwyn gwarchod rhag honiadau o ffafriaeth, ni fydd gweithwyr yn ymwneud ag unrhyw benodiadau, nac unrhyw benderfyniadau eraill sy'n ymwneud â disgyblaeth, dyrchafiadau, pae nac amodau unrhyw weithwyr eraill, na darpar weithwyr, y maent yn perthyn iddynt, neu y mae ganddynt berthynas agos â hwy y tu allan i'r gwaith.

103. Lle bo'r Swyddog Monitro'n cynnal archwiliad yn unol â'r Rheoliadau a wnaed dan Adran 73(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, bydd y gweithwyr yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion a wneir gan y Swyddog Monitro o ran yr archwiliad hwnnw.

CYNLLUNIAU IAITH GYMRAEG A DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG

104. Bydd Cynghorwyr, Swyddogion ac unrhyw weithwyr eraill yn cadw at ofynion unrhyw Gynllun Iaith Gymraeg neu Gynllun diwygiedig a wneir gan y Cyngor dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac a gymeradwyir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

105. Bydd y Cyngor yn trafod y materion yn ei gyfarfodydd yn yr iaith Gymraeg.

HAWLIAU DYNOL

106. I'r graddau y mae hynny'n bosib, bydd rhaid darllen y ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth a'i gweithredu mewn modd sy'n gydnaws â'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol a nodir yng Nghytundeb Ewrop ar Hawliau Dynol fel y nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998 ac, felly, mae'n anghyfreithlon yn gyffredinol i awdurdod cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r hawliau yn y Cytundeb. Felly bydd y Cyngor yn ystyried egwyddorion hawliau dynol wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar hawliau pobl.

AMRYWIO, DIDDYMU A RHOI HEIBIO'R RHEOLAU SEFYDLOG

107. Yn amodol ar y gofynion statudol, bydd modd rhoi heibio unrhyw rai o blith y Rheolau Sefydlog hyn, ac eithrio'r rhai mewn teip **du**, trwy benderfyniad gan y Cyngor, o ran unrhyw eitem benodol o fusnes, ar yr amod bod o leiaf ddwy ran o dair o'r aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio ar y cynnig o blaid hynny. Caiff Pwyllgor neu Is-Bwyllgor i'r Cyngor yn yr un modd roi heibio drwy benderfyniad unrhyw rai o'r Rheolau Sefydlog hyn mewn perthynas ag unrhyw eitem benodol o fusnes y mae ganddo bwerau swyddogaethol wedi eu dirprwyo'n briodol ar ei chyfer, gyda'r amodau uchod. Caiff y Rheolau Sefydlog eu rhoi heibio am y cyfarfod lle caiff y penderfyniad ei basio yn unig.

108. Bydd unrhyw gynnig i ychwanegu at y Rheolau Sefydlog hyn, eu hamrywio neu'u diddymu, o'i gynnig a'i eilio, yn aros wedi ei ohirio heb drafodaeth tan y cyfarfod arferol nesaf o'r Cyngor.

RHEOLAU SEFYDLOG I'W RHOI I AELODAU A SWYDDOGION

109. Bydd y Clerc yn rhoi copi o'r Rheolau Sefydlog hyn i bob aelod o'r Cyngor pan gaiff Ddatganiad o Dderbyn Swydd gan yr aelod. Hefyd bydd y Clerc yn rhoi copi ohonynt i unrhyw Swyddog neu weithiwr/wraig arall pan gaiff ei benodi/ei phenodi.

L.C.L 20.07.02